

Cipolwg ar Arlunydd o Bontarddulais

Gan mai yn Abertawe y cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, meddyliais y byddai o ddiddordeb i'r Casglwyr Cymreig weld peth o waith arlunydd o'r ardal nad yw'n cael fawr o sylw'r dyddiau yma. Mae enwau fel Ceri Richards, Alfred Jones, Mervyn Levy, Evan Walters, Vincent Evans ac Archie Griffiths yn adnabyddus, ond nid felly Vera Bassett.

yn 1956 rhif 34 yw llun Vera Bassett 'Girl standing', rhif 35 yw Barbara Hepworth 'Stone and flower', a rhif 36 John Piper 'Portland - the road to Weymouth'. Enghraifft arall o'i phwysigrwydd yw cael lluniau yn yr un Arddangosfa â Picasso, Degas ac Augustus John yn Oriol Beaux Arts yn Llundain. Roedd y ferch o Bontarddulais mewn cwmni dethol iawn.



Llun 1 - Esgidiau

Yng Nghymru, roedd Aneurin Talfan Davies a Norah Isaac yn hoff iawn o'i gwaith. Buont yn lladmer-yddion ffyddlon iddi gan annog eraill i brynu ei lluniau. Mewn rhagarweiniad i un arddangosfa dywedodd Norah Isaac 'Tynerwch mynegiant yw ei chryfder hi. Gedy hi i'r llinell dirion a'r

Ganed Vera Bassett ar y Fforest ger Pontarddulais yn 1912, symud i Borth Tywyn tua 1970 a bu farw yn 1997 yn 85 mlwydd oed.

Wedi damwain yn ei harddegau, fe'i caethiwyd i'w gwely am gyfnod hir ac yn yr amser hynny, prynodd ei thad set o ddyfrlliwiau iddi i'w diddori. O'r digwyddiad hyn y tyfodd ac y datblygodd ei diddordeb mewn arlunio. I raddau helaeth, roedd yn hunan addysgiedig ag eithrio un cyfnod yng Ngholeg Celf Abertawe. Bu'r Coleg yma â William Grant yn Brifathro o 1920 hyd 1943 yn fawr ei ddyllanwad ar y Celfyddydau Gweledol yng Nghymru. Dywedodd Vera wrth newyddiadurwr yn 1967 er iddi gael pob cefnogaeth yn y Coleg, ysai am fynd tua thre' gan na allai weithio yng ngŵydd y myfyrwyr eraill.

Ystyriwyd ei gwaith yn ddigon da i gael ei arddangos mewn arddangosfeydd pwysig - o'r un cyntaf ym Mhontarddulais yn 1948 at eraill yn Llundain, Paris, Efrog Newydd, Massachusetts a Biarritz. Yng nghatalog arddangosfa yn Oriolau Leicester yn Llundain



Llun 3 - Yr Ymbarel

lliw meddal awgrymu cyfoeth bywyd' Mae'r farn yma'n ategu'r hyn a ysgrifennodd yr arlunydd Cymreig, Mervyn Levy, amdani yn

Llun 2 - Gwagedd a'u gofalon

1954 wrth sôn am ei 'linell hynod gain a'i golchliwiau pur, deheuig.

Mae Llun 1 o'r esgidiau yn dangos y dechneg a ddefnyddiai gan amlaf - creu y ddelwedd dan sylw â phensil yn gyntaf ac yna rhoi bywyd iddo â'i dyfrlliwiau.

Wrth edrych ar Llun 2 y mae 'linell hynod gain' Mervyn Levy a 'linell dirion' Norah Isaac yn amlwg yn y gwagedd a bortreadir, gwagedd sy'n dra nodweddiadol o'r cymeriadau yn lluniau Vera Bassett. Gwelir hwynt yn crymu dan bwysau eu gofalon - gyda'r plant yn eu breichiau ac yn eu canlyn ac yn gwegian wrth gario pwysau y bagiau siopa gorlawn. Llun celfydd mewn pensil a golchliw ysgafn yn unig yw hwn.

Mae'r ymbareli yn Llun 3 yn fwy lliwgar ond yr un yw'r dechneg - a'r neges!

Drosodd a throsodd wrth edrych ar ei gwaith, gwelwn fod y golygfeydd a



Llun 4 - Yr Orymdaith



Llun 5 - Y Sied